**Rhif: WG40360**

Llywodraeth Cymru

**Dogfen Ymgynghori**

# Cynllun Gwella Ffordd Osgoi Wrecsam yr A483 – Cyffyrdd 3 i 6

Dyddiad cyhoeddi: 25 Awst 2020

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 22 Tachwedd 2020

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru, yn ymchwilio i opsiynau i wella Ffordd Osgoi Wrecsam yr A483 rhwng Cyffyrdd 3 a 6 ar hyn o bryd. |
| **Sut i ymateb** | Mae'r Ymgynghoriad Cyhoeddus yn cynnwys cyfres o gwestiynau penodol, a byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu eich ymateb iddynt erbyn 22 Tachwedd 2020. Gallwch ymateb drwy un o'r ffyrdd a ganlyn:<br><br>Ar-lein: Drwy lenwi'r Ffurflen Ymateb ar wefan y prosiect: llyw.cymru/a483-cyffyrdd-3-i-6-trosolwg<br><br>E-bost: Drwy lenwi'r Ffurflen Ymateb sydd ar ddiwedd y ddogfen hon a'i hanfon mewn e-bost i enquiries@nmwtra.org.uk gan ddefnyddio'r pennawd 'Ffordd Osgoi Wrecsam yr A483'<br><br>Post: Drwy lenwi'r Ffurflen Ymateb sydd ar ddiwedd y ddogfen hon a'i phostio i:<br><br>Cynllun Ffordd Osgoi Wrecsam yr A483<br>Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru,<br>Adeiladau'r Llywodraeth,<br>Sarn Mynach,<br>Cyffordd Llandudno,<br>LL31 9RZ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Gwefan y Prosiect: llyw.cymru/a483-cyffyrdd-3-i-6-trosolwg |
| **Manylion Cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>E-bost: 'enquiries@nmwtra.org.uk' gan ddefnyddio'r pennawd 'Ffordd Osgoi Wrecsam yr A483'<br><br>Rhif ffôn: 01492 588319 |
| **Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg** | llyw.cymru/a483-cyffyrdd-3-i-6-trosolwg |

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

e-bost: Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113

Gwefan: https://ico.org.uk/

# Croeso a Chyflwyniad

## Croeso

Mae Llywodraeth Cymru ac Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Gorllewin Cymru yn eich croesawu i'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn. Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn i gyflwyno ein hopsiynau arfaethedig i wella cyffyrdd 3-6 o'r A483, ac yn gofyn am eich adborth ar ein cynigion. Bydd yr ymgynghoriad yn para tan hanner nos ddydd Sul 22ain Tachwedd 2020.

## Cyflwyniad a chrynodeb byr

Mae'r A483 yn rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru, sy'n cael ei reoli gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Gorllewin Cymru (NMWTRA) ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae'r A483 yn darparu un o'r llwybrau cysywllt allweddol rhwng Gogledd a De Cymru, yn ogystal â darparu mynediad i Ogledd Cymru a Chanolbarth Lloegr. Mae'r ffordd hon yn llwybr allweddol i dwristiaid sy'n teithio i gyrchfannau poblogaidd Gogledd Cymru ac i gludo nwyddau ar draws y DU, Iwerddon a thir mawr Ewrop. Mae'r A483 wedi'i leoli i'r Gorllewin o Ganol Tref Wrecsam a Chyffordd 3-6 yw'r cysylltiadau lleol â'r rhwydwaith priffyrdd hwn. Mae'r rhan hon o'r gefnffordd yn cario 58,000 o gerbydau bob dydd, gyda chyffyrdd 4, 5 a 6 yn wynebu tagfeydd yn ystod amser brig, gan gyfyngu mynediad i Wrecsam ac oddi yno.



# Amlinelliad o'r Cynllun

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn poeni am dagfeydd y presennol a'r dyfodol ar gyffyrdd yr A483 ac effaith hynny ar ddyheadau twf Wrecsam a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru.

Mae astudiaethau diweddar, fel Adroddiad o Effaith Economaidd Cyffyrdd A483 Wrecsam
(Ebrill 2016), wedi cadarnhau bod tagfeydd traffig yn cyfyngu ar ddyheadau twf economaidd yn Wrecsam.

Gwnaed gwaith pellach yn 2017 i amlinellu'r materion sy'n effeithio ar yr A483 a'u prif ffactorau cyfrannol. Nododd yr asesiad Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru
(WelTAG) Cam 1 yr amcanion mewn perthynas â'r materion hyn ac atebion arfaethedig i gyflawni'r amcanion. Datblygwyd ac aseswyd rhestr hir o opsiynau, a nodwyd yr A483 rhwng Cyffordd 3 i 6, a'i gyffyrdd cysylltiedig, fel meysydd allweddol i'w gwella.

Mae Ffordd Osgoi Wrecsam A483 – Cyffordd 3 i 6 yn gynllun mannau cyfyng sy'n cael ei gynnwys yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a'r ddogfen Symud Gogledd Cymru Ymlaen. Mae Symud Gogledd Cymru Ymlaen yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth
yng Ngogledd Cymru ac mae'n ceisio creu rhwydwaith trafnidiaeth dibynadwy ac effeithlon ar draws y rhanbarth ac ar draws ffin Cymru-Lloegr, gan gysylltu pobl a busnesau â swyddi a gwasanaethau. Mae'r cynllun hwn yn fesur allweddol o fewn y weledigaeth hon ac yn rhan bwysig o'r cynlluniau i gefnogi llwyddiant Gogledd Cymru yn y dyfodol.



# Pam mae angen y cynllun?

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

O ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gwaith a wnaed yn ystod WelTAG Cam 1 a 2, nodwyd y materion allweddol canlynol mewn perthynas â'r A483 Ffordd Osgoi Wrecsam:

- Tagfeydd traffig lleol yn Wrecsam, yn enwedig yng Nghyffyrdd 4 a 5
- Tagfeydd traffig strategol ar yr A483
- Cyfyngu ar dwf a datblygiad economaidd yn Wrecsam yn sgil tagfeydd yr A483
- Seilwaith teithio llesol gwael dros yr A483
- Seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus gwael yn Wrecsam

Ein barn ni, os na wnawn ni ddim, y bydd y materion hyn yn parhau i effeithio ar drigolion a busnesau yn Wrecsam.



## Amcanion y Cynllun

Mae set o amcanion y cynllun wedi'u datblygu drwy waith a wnaed i ddeall y materion sy'n gysylltiedig â'r cynllun, ynghyd â chyfeiriad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r amcanion terfynol a osodwyd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn cynnwys:

1. Cefnogi a galluogi dyheadau twf y Cynllun Cyflenwi Lleol ar gyfer Wrecsam
2. Cynnal swyddogaeth strategol yr A483/A5 drwy wella cadernid a dibynadwyedd amser siwrneiau
3. Gwella ansawdd aer ac effaith sŵn ar hyd yr A483 rhwng Cyffyrdd 3 a 6
4. Lleihau'r gyfran uchel o ddefnydd ceir ar gyfer siwrneiau sy'n cychwyn ac yn gorffen o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n defnyddio'r A483 a'i gyffyrdd
5. Sicrhau bod yr A483 yn effeithiol wrth wasanaethu symudiadau lleol
6. Gwella cysylltedd, hygyrchedd a chydlyniant rhwydwaith trafnidiaeth ar gyfer siwrneiau sy'n croesi'r A483
7. Tarfu cyn lleied â phosib ar bethau yn ystod y gwaith adeiladu
8. Peidio â chael effaith andwyol ar ddiogelwch (damweiniau anafiadau personol) a lleihau lefel y digwyddiadau

# Effaith Amgylcheddol


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Mae deall effaith y cynllun arfaethedig ar yr amgylchedd a'r gymuned yn rhan bwysig o'n gwaith, fel ein bod yn lleihau effeithiau negyddol ac yn nodi cyfleoedd i wella'r amgylchedd lle gallwn.

Rydym wedi nodi'r cyfyngiadau amgylcheddol a ddangosir yn y cynllun hwn, ac wedi cynnal ystod o astudiaethau amgylcheddol i roi'r wybodaeth a ddefnyddiwyd gennym i werthuso'r cynigion. Rydym hefyd wedi ymgynghori â chyrff statudol a chyrff eraill am wybodaeth a chyngor. Bydd y rheini yr ymgynghorwyd â nhw yn cael eu hysbysu am y gwaith hwn a'i ddefnyddio i benderfynu pa waith pellach fyddai ei angen pe bai cynllun yn cael ei ddatblygu.

Mae'r cyfyngiadau yn cynnwys:

- Ardaloedd preswyl a man agored cyhoeddus gerllaw'r A483 yn Rhostyllen, i'r gorllewin o Ffordd Berse a rhwng Cyffyrdd 5 a 6 (Ffordd Stansty i A5156 Ffordd Holt);
- Ysbyty Maelor ac Ysbyty Iâl;
- Hen weithfeydd mwynau gan gynnwys cloddio glo brig ym Mharc Plas Power, gweithfeydd glo, graean tywod a phyllau clai;
- Tir halogedig posib sy'n gysylltiedig â diwydiannau hanesyddol a llinellau rheilffyrdd;
- Parc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig Erddig (eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol);
- Henebion Cofrestredig ac Adeiladau Rhestredig gan gynnwys Ffermdy Berse Isaf, Gwaith Haearn Bersham, ffrâm dur Pwll Glo Glanyrafon, Neuadd Croesnewydd;
- Safleoedd bywyd gwyllt gwarchodedig statudol gan gynnwys SoDdGA Cors Gatewen a SoDdGA Stryt Las a'r Hafod ac afonydd Clywedog, Gwenfro, Redbrook ac Alun sy'n bwydo Afon Dyfrdwy ac ACA Llyn Tegid;
- Mathau eraill o fywyd gwyllt lleol yn cynnwys ystlumod, madfallod cribog, moch daear, dyfrgwn a rhywogaethau eraill a'u cynefinoedds;
- Tir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, busnes ac wedi'i ddynodi ar gyfer cyflogaeth neu dai yn y dyfodol;
- Llwybrau cyhoeddus ar gyfer hamdden a theithio llesol i'r gwaith neu gyfleusterau lleol,



# Datblygu Atebion

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Drwy ein dealltwriaeth o'r materion cyfredol a heriau'r dyfodol, gwnaethom nodi opsiynau posibl sy'n anelu at gyflawni amcanion y cynllun. Aseswyd yr opsiynau hyn gan ddefnyddio'r arweiniad ar arfarnu trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, WelTAG, sy'n sicrhau cynigion cyllid y sector cyhoeddus:

- Gwerth da am arian;
- Buddion trafnidiaeth, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol; a
- Y budd mwyaf gyda'r effaith leiaf bosibl.

Nodwyd cyfanswm o 56 o opsiynau i ddechrau a oedd yn cwmpasu amrywiaeth o themâu. Roedd themâu'r opsiynau hyn yn cynnwys gwella priffyrdd yng nghyffyrdd 3-6, gwaith lledu lôn gerbydau prif linell yr A483 a mân waith uwchraddio eraill fel gwella arwyddion, cyfyngiadau cyflymder amrywiol a darpariaeth ychwanegol i gerddwyr a beicwyr.

Trwy broses o beirianneg, trafnidiaeth a gwerthuso amgylcheddol, aseswyd opsiynau i greu rhestr fer, gan ddiystyru yr opsiynau hynny nad oeddent yn mynd i'r afael ag amcanion y cynllun. Drwy fireinio'r rhestr fer ymhellach ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, dewiswyd yr opsiynau sy'n cael eu ffafrio i gyflawni amcanion y cynllun orau. Byddai'r pecyn o gynlluniau sy'n cael eu ffafrio yn gwella mynediad i Wrecsam, gwella amseroedd teithio a darparu cysylltiadau teithio llesol newydd i drigolion lleol. Gellir adeiladu a chyflenwi'r cynigion sy'n cael eu cyflwyno heb fawr o effaith ar draffig presennol.

Drwy ddefnyddio'r asesiad hwn, mae'r opsiynau canlynol wedi'u nodi:

- Cyffordd 3 (Ffordd Wrecsam): Mân welliannau i'r briffordd a gwelliannau i deithio llesol
- Cyffordd 4 (Ffordd Rhuthun): Gwelliannau mawr i'r briffordd gyda gwelliannau i deithio llesol
- Cyffordd 5: (Cylchfan Plas Coch / Ffordd yr Wyddgrug): Gwelliannau i deithio llesols
- Cyffordd 6 (A5156 / Cyfnewidfa Gresffordd: Mân welliannau i'r briffordd a gwelliannau i deithio llesol

**Nodi'r Broblem / Gosod Amcanion**

**Digwyddiad Gwybodaeth Cyhoeddus**

**Nodi ac Asesu'r Rhestr Hir o Opsiynau**

**Asesu'r Rhestr Fer o Opsiynau**

**Cyffordd 3** (Ffordd Wrecsam)
- Lôn wahanu ychwanegol ar ffordd y B5605 wrth ddynesu at y gylchfan
- Lleihau tagfeydd wrth ddynesu at y gyffordd
- Gwelliannau teithio llesol ar gyfer mynediad y dwyrain/ gorllewin

**Cyffordd 4** (Ffordd Rhuthun)
- Disodli'r gyffordd bresennol gyda system gylchu newydd gan gadw trosbont gyfredol yr A525
- Gwella'r ddarpariaeth beicio a cherdded ar hyd yr A525 ar draws yr A483

**Cyffordd 5** (Cylchfan Plas Coch / Ffordd yr Wyddgrug)
- Signalau arfaethedig ar gyfer mynediad Ffordd yr Wyddgrug i'r gyffordd
- Gwelliannau teithio llesol ar gyfer mynediad y dwyrain/ gorllewin
- Gwella signalau a chylchoedd traffig Plas Coch


**Cyffordd 6** (A5165 Cyfnewidfa Gresffordd)
- Lôn ychwanegol ar Ffordd Caer wrth ddynesu o'r de ac wrth ddynesu o Blue Bell Lane
- Gwella'r ddarpariaeth beicio a cherdded

MOTT MACDONALD

RICHARDS MOORHEAD & LAING LTD
PLANNING | LANDSCAPE | ENVIRONMENT

# Cynllun Arfaethedig ar gyfer Cyffordd 3 (Ffordd Wrecsam)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government




MOTT MACDONALD RICHARDS

# Cynllun Arfaethedig ar gyfer Cyffordd 4 (Ffordd Rhuthun)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government





**Allwedd i'r symbolau**

- Cynllun lôn gerbydau newydd
- Llwybr beiciau / troedffordd cyd-ddefnyddio newydd
- Ymyl/arglawdd/cloddwaith newydd

# Cynllun Arfaethedig ar gyfer Cyffordd 5 (Cylchfan Plas Coch / Ffordd yr Wyddgrug)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government





MOTT MACDONALD

RICHARDS


# Cynllun Arfaethedig ar gyfer Cyffordd 6 (A5156 / Cyfnewidfa Gresffordd)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Llif y Traffig






## Gwybodaeth am Lif y Traffig

- Tynnwyd pob llif traffig a ddangosir o fodel traffig dilysedig ar gyfer y ddau gyfeiriad wedi'u cyfuno.
- Mae'r ffigurau mewn glas yn cynrychioli llif y traffig dyddiol ar gyfartaledd wedi'i fodelu yn 2018. Mae'r ffigurau mewn coch yn cynrychioli llif y traffig dyddiol ar gyfartaledd wedi'i ddarogan yn 2037 lle na wneir unrhyw welliannau i'r briffordd. Mae'r ffigurau mewn gwyrdd yn cynrychioli llif y traffig dyddiol ar gyfartaledd wedi'i ddarogan yn 2037, 15 mlynedd ar ôl ei agor. Mae hyn cynnwys cylchfan newydd yng nghyffordd 4 a mân welliannau yng nghyffyrdd 3, 5 a 6.
- Mae'r cynnydd yn llif y traffig ar gyfer y ffigurau mewn coch a gwyrdd yn seiliedig ar dwf traffig cyffredinol a'r datblygiadau arfaethedig a fyddai'n cynhyrchu traffig.
- Os yw cyffordd 4 cyfredol sydd â signal yn cau a chylchfan newydd yn cael ei hadeiladu i'r de, yna bydd y gyffordd hon yn gweithredu'n fwy effeithlon na'r gyffordd bresennol.
- Byddai defnyddwyr sydd wedi defnyddio cyffordd 5 yn y gorffennol bellach yn gallu defnyddio cyffordd 4, gan y bydd yn llifo'n rhydd gyda llai o dagfeydd.

# Sut alla i wneud sylw?

Rydym am glywed eich barn am ein cynigion. Yna gallwn ystyried eich barn a'ch sylwadau wrth lunio'r cynlluniau terfynol. Mae yna sawl ffordd y gallwch chi wneud sylwadau:

- Cwblhewch ffurflen ymateb ar-lein yn: llyw.cymru/a483-cyffyrdd-3-i-6-trosolwg
- E-bostiwch Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru: **enquiries@nmwtra.org.uk** – cofiwch gynnwys 'Cynllun Ffordd Osgoi Wrecsam A483' yn y llinell pwnc
- Yn ysgrifenedig at: Cynllun Ffordd Osgoi Wrecsam A483' Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Adeiladau'r Llywodraeth, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ
- Gofynnwch am gopi papur o'r ffurflen ymateb drwy ffonio 01492588319

Anfonwch eich ymateb erbyn dydd Sul **22 Tachwedd 2020.**


## Camau Nesaf

Byddwn yn adolygu'r holl sylwadau ac awgrymiadau unwaith y bydd ffenest adborth yr ymgynghoriad wedi cau. Bydd y rhain yn cael eu dadansoddi a'u hystyried fel rhan o'r broses gynllunio. Byddwn hefyd yn cynhyrchu adroddiad i grynhoi'r ymatebion i'r adborth.

Mae'r diagram yn dangos ein rhaglen waith. Rydym yn y cam Ymgynghori Cyhoeddus ar hyn o bryd.

Bydd y wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd y cynllun yn cael ei rhoi ar wefan prosiect Llywodraeth Cymru:

llyw.cymru/a483-cyffyrdd-3-i-6-trosolwg



**Sut galla i gael rhagor o wybodaeth?**

Rydym yn cynnal digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus lle gallwch weld gwybodaeth am y cynllun arfaethedig. Gallwch gwrdd â'n Tîm Prosiect a fydd yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Bydd siaradwyr Cymraeg ar gael yn y digwyddiadau hyn hefyd.

**Bydd y digwyddiadau'n cadw at y canllawiau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar COVID-19. Edrychwch ar wefan y prosiect cyn mynd i'r digwyddiad, rhag ofn y bydd y digwyddiad wedi'i ohirio.**

| | |
|---|---|
| **Pryd/Ble** | Gwesty Ramada Plaza, Ellice Way, Wrecsam LL13 7YH |
| **Digwyddiad 1** | Dydd Mercher 23 Medi 2020, 10 AM – 8PM |
| **Digwyddiad 2** | Dydd Iau 24 Medi 2020, 10 AM – 8PM |

**Sut mae gwneud sylwadau?**

Rydym am glywed eich barn am ein cynllun arfaethedig. Yna gallwn ystyried eich barn a'ch sylwadau wrth siapio'r dyluniad terfynol. Gallwch wneud sylwadau mewn sawl ffordd:

- Llenwi'r ffurflen ymateb ar wefan y prosiect: llyw.cymru/a483-cyffyrdd-3-i-6-trosolwg
- Gofyn am gopi papur o'r ffurflen ymateb drwy ffonio: 01492 588319
- Mynd i un o'n Digwyddiadau Ymgynghori lle bydd copïau papur o'r ffurflen ymateb ar gael
- Anfon e-bost at Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru: enquiries@nmwtra.org.uk gan ddefnyddio'r pennawd 'Ffordd Osgoi Wrecsam yr A483'
- Gallwch hefyd wneud cais i gael trafod gwybodaeth yr Ymgynghoriad Cyhoeddus gan ddefnyddio Microsoft Teams. Anfonwch e-bost at 'enquiries@nmwtra.org.uk' gan ddefnyddio'r pennawd 'Ffordd Osgoi Wrecsam yr A483 - Trafodaeth Microsoft Teams'
- Ysgrifennu atom yn: Cynllun Ffordd Osgoi Wrecsam yr A483, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Adeiladau'r Llywodraeth, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ

Er mwyn helpu i siapio ein dyluniad terfynol, cyflwynwch eich ymateb erbyn 22 Tachwedd 2020.

**Y Camau Nesaf**

Byddwn yn adolygu pob sylw ac awgrym ar ôl i ffenestr adborth yr ymgynghoriad gael ei chau. Bydd y rhain yn cael eu dadansoddi a'u hystyried fel rhan o'r broses ddylunio. Byddwn hefyd yn cynhyrchu adroddiad i grynhoi'r ymatebion adborth.

Bydd diweddariadau ar gynnydd y cynllun yn cael eu darparu ar wefan y prosiect: llyw.cymru/a483-cyffyrdd-3-i-6-trosolwg

**Ffurflen Ymateb**

**Rhan 1:  Y cynllun arfaethedig**

**C1. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cynllun a ffafrir ar gyfer Cyffordd 3 A483 (Ffordd Wrecsam)?**

| |
|---|
| |

**C2. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cynllun a ffafrir ar gyfer Cyffordd 4 A483 (Ffordd Rhuthun)?**

| |
|---|
| |

**C3. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cynllun a ffafrir ar gyfer Cyffordd 5 A483 (Cylchfan Plas Coch / Ffordd yr Wyddgrug)?**

| |
|---|
| |

**C4. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cynllun a ffafrir ar gyfer Cyffordd 6 A483 (A5156 / Cyfnewidfa Gresffordd)?**

**C5. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y cyfleusterau i gerddwyr a beicwyr sy'n cael eu hymgorffori fel rhan o'r cynllun?**

**C6. Beth yw eich barn am y cyfleusterau teithio llesol presennol yn yr ardal?**

**C7. A fyddai'r cynigion yn effeithio ar/yn newid eich llwybr teithio arferol?**

**C8. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill y carech eu gwneud ynglŷn â'r cynllun arfaethedig?**

| |
|---|
| |

**Ffurflen Ymateb**

**Rhan 2: Amdanoch chi**

**Mae’r adran hon yn ddewisol, ond bydd yn caniatáu i ni ddeall pwy sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad.**

Beth yw eich cod post? ______________________

Ydych chi’n ddeiliad tir yr effeithir arno? Ydw / Nac ydw

Ydych chi’n ymateb ar ran sefydliad? Ydw / Nac ydw

Os ydych chi, pa sefydliad?__________________________________